Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau Statudol ar gyfer Darparwyr Cyrsiau Adsefydlu Gyrwyr sy'n Yfed

2019

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG39141 ISBN Digidol: 978 1 83933 425 2

# Cynnwys


1. Cyflwyniad 3
2. Sut i wneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer cwrs 4
3. Pris y cwrs 6
4. Trefnu lle ar gwrs ar gyfer troseddwr 7
5. Gwiriadau adnabod 8
6. Darparu cwrs adsefydlu gyrwyr sy'n yfed 8
7. Cwblhau'r cwrs 9
8. Methu cwblhau'r cwrs 9
9. Adborth a gwerthuso 10
10. Sicrhau ansawdd ac archwiliadau 11
11. Tynnu cymeradwyaeth ar gyfer cwrs yn ôl 12
12. Yr hawl i apelio 14
13. Cwynion 14
14. Gwybodaeth ddefnyddiol 14

# 1. Cyflwyniad

Ers 1 Ionawr 2000, caiff llysoedd* ym Mhrydain Fawr atgyfeirio troseddwr ar gyfer cwrs Adsefydlu Gyrwyr sy'n Yfed (cwrs adsefydlu) os yw wedi cael ei ddyfarnu'n euog o drosedd sy'n gysylltiedig ag yfed a gyrru o dan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 (adrannau 34, 34A, 34B, 34BA, 34C) ac wedi cael ei wahardd rhag gyrru am o leiaf 12 mis.

Rhaid i gyrsiau adsefydlu yng Nghymru gael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru (o dan adran 34A(6) o Ddeddf Tramgwyddwyr Traffig Ffyrdd 1988).

Mae cyrsiau adsefydlu'n cynnig cyfle addysgol i'r rhai sy'n cael eu dyfarnu'n euog o droseddau yfed perthnasol, er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn troseddu eto yn y dyfodol.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r gofynion sylfaenol ar gyfer darparwyr cyrsiau sydd am ddarparu cwrs adsefydlu cymeradwy yng Nghymru. Rhaid i ddarparwyr cyrsiau ddilyn y canllawiau hyn. Mae'n bosibl y bydd methu â dilyn y canllawiau hyn yn arwain at gymeradwyaeth ar gyfer y cwrs yn cael ei thynnu'n ôl.

Dyma'r ddeddfwriaeth a'r dogfennau cysylltiedig:

- Rheoliadau Cyrsiau Adsefydlu (Troseddau Yfed Perthnasol) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd 2015)
- Deddf Tramgwyddwyr Traffig Ffyrdd 1988 (o dan adrannau 34, 34A, 34B, 34BA, 34C)
- Deddf Diogelwch ar y Ffyrdd 2006 (o dan adran 35)
- Maes llafur adsefydlu gyrwyr sy'n yfed

Mae cynlluniau tebyg ar waith yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Rhaid i gyrsiau adsefydlu yn Lloegr a'r Alban gael eu cymeradwyo gan yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth.

# 2. Sut i wneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer cwrs

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gymeradwyo a sicrhau ansawdd cyrsiau adsefydlu gyrwyr sy’n yfed yng Nghymru. Gall darparwr wneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer cwrs ar unrhyw adeg drwy lawrlwytho a chwblhau'r ffurflen gais.

Rhaid i'r darparwr nodi'r ardal neu’r ardaloedd penodol lle mae am ddarparu cyrsiau. Mae canllawiau manwl ar sut i sefydlu cwrs adsefydlu a sut i wneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer cwrs yma: Ffurflen Gais

Mae'r cwrs yn cael ei werthuso yn erbyn y meini prawf canlynol:

- **Personau addas** – mae'r person sy'n gwneud y cais am gymeradwyaeth ar gyfer cwrs yn berson addas ac mae'r staff sy'n cael eu cyflogi i ddarparu cwrs hefyd yn bersonau addas.
- **Cynnwys y cwrs** – bydd y cwrs mae'n bwriadu ei ddarparu yn cyflawni'r canlyniadau dysgu a nodir yn y maes gwaith ar gyfer cyrsiau adsefydlu
- **Trefniadau darparu cyrsiau** – mae'r hyfforddwyr sy'n cael eu cyflogi'n meddu ar y cymwyseddau i ddarparu'r cwrs i safon uchel, sy'n cael eu dangos gan eu sgiliau/profiad a/neu gymwysterau
- **Gweinyddu'r cwrs** – mae prosesau priodol ar waith ar gyfer gweinyddu'r cwrs mewn modd effeithiol

Os yw'r cwrs yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cymeradwyaeth, bydd yn cael ei gymeradwyo. Bydd y cwrs yn cael ei gymeradwyo am gyfnod o bedair blynedd, yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn cael ei hysbysu am unrhyw newidiadau i'r dystiolaeth uchod a roddir ar adeg cymeradwyo'r cwrs, er enghraifft:

- statws cyfreithiol y sefydliad sy'n gwneud y cais
- y bobl allweddol o fewn y sefydliad sy'n gyfrifol am y cynllun a darparu'r cwrs
- statws ariannol neu gyfreithiol y person(au) cyfrifol a enwir o fewn y sefydliad
- cymwysterau'r hyfforddwyr sy'n cael eu cyflogi

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cyflawni'r canlyniadau dysgu yn dibynnu ar y wybodaeth, y sgiliau, yr agwedd a'r ymddygiad a ddangosir gan hyfforddwyr y cwrs. Yn hyn o beth, mae'n rhaid i bob hyfforddwr cwrs adsefydlu gyrwyr sy’n yfed feddu ar y cymwysterau priodol neu fod wedi cael profiad cydnabyddedig a pherthnasol gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y canlynol:

- Tystysgrif Ascentis Lefel 3 mewn Deall Camddefnyddio Sylweddau (achrediad ffurfiol), er enghraifft, cymhwyster NVQ Lefel 3 (neu'n uwch)
- Dyfarniad a Thystysgrif BTEC Edexcel mewn Gweithio gyda Chamddefnyddio Sylweddau Lefelau 3/4
- Dyfarniad a Thystysgrif City & Guilds mewn Gweithio gyda Chamddefnyddio Sylweddau Lefelau 3/4
- Dyfarniad Cyfiawnder Cymunedol City & Guilds mewn Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol
- Diploma Lefel 3 y Brifysgol Agored/Ffederasiwn yr Ymarferwyr Cyffuriau ac Alcohol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Arbenigedd mewn Camddefnyddio Alcohol a Sylweddau).

Neu dystiolaeth o brofiad perthnasol megis:

- aelodaeth ffurfiol o gorff proffesiynol, er enghraifft, Ffederasiwn yr Ymarferwyr Cyffuriau ac Alcohol (FDAP)
- profiad helaeth o ddarparu rhaglenni newid ymddygiad, er enghraifft, yng nghyd-destun nyrsio, cyfiawnder troseddol, gofal cymdeithasol, gwaith ieuenctid, prawf neu gwnsela
- tystiolaeth ei fod yn gweithio tuag at achrediad ffurfiol gyda chorff dyfarnu neu gorff proffesiynol priodol

Disgwylir hefyd i hyfforddwyr dderbyn datblygu proffesiynol parhaus a rhaid i ddarparwyr allu dangos hyn yn ystod archwiliad.

Pan fydd cwrs wedi cael ei gymeradwyo, byddwn ni'n:

- hysbysu'r llysoedd fel bod troseddwyr yn gallu cael eu hatgyfeirio i gyrsiau yn yr ardal honno
- gofyn i dîm gweinyddol y llysoedd roi cyfeiriad e-bost diogel y Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol (CJSM) fel y gellir atgyfeirio troseddwyr at ddarparwyr cyrsiau mewn modd diogel.

Anogir darparwyr cyrsiau i adeiladau perthynas weithio agos â'r llysoedd yn eu hardal er mwyn atgyfeirio cymaint o droseddwyr ag y bo modd. Gallai hyn gynnwys:

- gwneud gwybodaeth ar gael yn rhydd i'r llysoedd i hyrwyddo gwerth cyrsiau adsefydlu i droseddwyr, er enghraifft, drwy ddarparu taflenni gwybodaeth
- cynnal cyfarfodydd cyswllt â chynrychiolwyr llysoedd
- cynnig hyfforddiant i staff gweinyddol newydd a phresennol y llysoedd a chyfreithwyr lleol ar werth cyrsiau adsefydlu – mae'n bosibl bod lle i wneud hyn ar y cyd.

Mae'n ofynnol i ddarparwyr ddatgan yn ffurfiol eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol eraill, er enghraifft, iechyd a diogelwch, cyfraith cyflogaeth, diogelu data a sicrhau ansawdd rheolaidd.

Os yw darparwyr am ddechrau darparu ei gwrs cymeradwy mewn ardaloedd daearyddol eraill, mae angen cyflwyno cais ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru gyda thystiolaeth o'r canlynol:

- sut bydd hyfforddwyr yn cael eu defnyddio yn yr ardaloedd ychwanegol i fodloni'r galw
- sut bydd yn sicrhau bod gan hyfforddwyr y cymwysterau a'r profiad priodol
- manylion llawn o'r lleoliadau a fydd yn cael eu defnyddio yn yr ardaloedd newydd

Nodwch na fydd darparwyr yn cael cymeradwyaeth ar gyfer darparu cyrsiau mewn ardaloedd newydd yn awtomatig; yn yr un modd ni fydd cyrsiau presennol yn cael eu hailgymeradwyo'n awtomatig ar ôl y cyfnod o bedair blynedd.

Mae angen i'r darparwr dalu ffi statudol o £7 i Lywodraeth Cymru am bob troseddwr sy'n cwblhau'r cwrs, yn ogystal â chyflwyno adroddiadau chwarterol.

Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r adroddiadau ar berfformiad chwarterol a'r data ariannol (gan gynnwys talu'r ffi) yw 14 diwrnod ar ôl diwedd y chwarter perthnasol fan bellaf.

# 3. Pris y cwrs

Y ffi leiaf y gellir ei chodi am y cwrs yw £150 a'r ffi fwyaf yw £250. Rhaid i ddarparwr y cwrs benderfynu ar y gost o fewn y terfynau hyn.

Os oes angen cymorth ar droseddwr i dalu'r ffi, caiff darparwr y cwrs gytuno i dderbyn y taliad mewn rhandaliadau. Fodd bynnag, rhaid i'r darparwr gasglu'r holl daliad cyn diwedd y cwrs. Pan fydd taliad yn cael ei dderbyn mewn rhandaliadau, dylai darparwyr hysbysu troseddwyr na fydd tystysgrif cwblhau cwrs yn cael ei rhoi os nad ydynt wedi talu am y cwrs yn unol ag adran 34B o Ddeddf Tramgwyddwyr Traffig Ffyrdd 1988.

I newid cost y cwrs, dylai darparwyr cwrs anfon e-bost at DrinkDriveRehabilitationScheme@llyw.cymru o leiaf 30 diwrnod calendr cyn y newid arfaethedig.

# 4. Trefnu lle ar gwrs ar gyfer troseddwr

Gofynnir i droseddwr ddewis cwrs cymeradwy pan fydd yn cael ei ddedfrydu a bydd y llys yn cysylltu â'r darparwr cyrsiau perthnasol drwy'r cyfeiriad e-bost CJSM i roi manylion yr atgyfeiriad. Bydd yr atgyfeiriad gan y llys yn cynnwys cyfeiriad presennol y troseddwr a'r manylion cyswllt a roddir i'r llys yn ystod y gwrandawiad. Pan fydd darparwr cwrs yn derbyn atgyfeiriad gan lys dylai'r darparwr gysylltu â'r troseddwr sydd wedi cael ei atgyfeirio cyn gynted ag y bo modd.

Y tro cyntaf i'r darparwr gysylltu â'r troseddwr dylai wneud y canlynol:

- cadarnhau bod cyrsiau'n cael eu darparu yn Gymraeg neu Saesneg
- gofyn i'r troseddwr am unrhyw ofynion arbennig neu addasiadau rhesymol sydd eu hangen.
- Nodi’r dyddiadau a’r lleoliadau mae cyrsiau sydd ar gael

Rhaid i ddarparwyr cyrsiau gymryd camau rhesymol i fodloni gofynion y troseddwr. Dylai'r darparwr drafod y gofynion hyn â'r troseddwr, a phenderfynu a yw'n gallu bodloni eu hanghenion a gwneud yr addasiadau sydd eu hangen.

Rhaid i'r darparwr gydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) ac mae'n atebol am fethu gwneud unrhyw addasiadau rhesymol. Mae'n bosibl y bydd methu cydymffurfio'n arwain at y gymeradwyaeth ar gyfer y darparwr cwrs hwnnw'n cael ei thynnu.

Mae'n dderbyniol i berthynas (dros 18 mlwydd oed) ddod gyda'r troseddwr yn lle cyfieithydd ar y pryd. Rhaid i'r darparwr fod yn fodlon bod y cyfieithydd ar y pryd yn siarad yr iaith mae'r cwrs yn cael ei ddarparu ynddi yn rhugl. Fodd bynnag, mae presenoldeb cyfieithydd ar y pryd yn gallu tarfu ar weddill y grŵp ar y cwrs. I sicrhau yr effeithir ar y cwrs cyn lleied ag y bo modd, argymhellir bod yr un cyfieithydd ar y pryd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr holl gwrs. Caiff darparwyr cwrs ddefnyddio eu disgresiwn ynghylch y mater hwn fesul achos.

Pan fydd troseddwr wedi cael ei atgyfeirio i ddarparwr cyrsiau, rhaid i'r darparwr cyrsiau wneud lle ar gael ar gyfer y troseddwr hwnnw ar ei gwrs cymeradwy. Os nad yw'r darparwr cyrsiau’n gallu darparu cwrs am unrhyw reswm, rhaid iddo ddweud wrth y troseddwr o leiaf 20 diwrnod calendr cyn dechrau'r cwrs, a chaiff gyfeirio'r troseddwr at ddarparwr cwrs arall a all ddarparu lle ar gwrs cymeradwy yn yr amser sydd ar gael.

Dylai'r darparwr cyrsiau sicrhau ei fod yn prosesu unrhyw ddata personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys peidio â datgelu data personol ynghylch y troseddwr (er enghraifft, enw, manylion cyswllt neu orchymyn llys) i unrhyw ddarparwr cyrsiau arall.

Mae gan droseddwyr yr hawl i wneud unrhyw gwrs cymeradwy a nodir yn y gorchymyn llys. Os yw troseddwr am drosglwyddo i ddarparwr cyrsiau cymeradwy arall, rhaid iddo wneud hynny drwy'r llys a roddodd y gorchymyn.

# 5. Gwiriadau adnabod

Dylid cynnal gwiriadau ar ddechrau pob sesiwn y cwrs. Darparwyr cyrsiau sy'n gyfrifol am wirio manylion adnabod troseddwyr i ddiogelu rhag twyll hunaniaeth.

Rhaid i ddarparwyr cyrsiau allu rhoi sicrwydd bod gwiriadau adnabod wedi cael eu cynnal a bod cofnod o bresenoldeb ar gyfer pob diwrnod y cwrs.

Mae'r darparwr yn gyfrifol hefyd am adrodd i'r heddlu am unrhyw droseddwr y mae'n dod i'r amlwg ei fod wedi gyrru i gwrs neu i ffwrdd, ac o ganlyniad cyflawni'r drosedd o yrru tra bo wedi'i wahardd.

# 6. Darparu Cwrs Adsefydlu Gyrwyr sy'n Yfed

Rhaid i'r cwrs gael ei ddarparu bob tro yn unol â'r crynodeb ar gyfer cyrsiau cymeradwy, gan sicrhau bod yr amodau canlynol yn cael eu bodloni:

- bod o leiaf 16 awr o ddysgu, heb gynnwys egwyliau
- bod o leiaf tair sesiwn (rhaid i'r sesiynau gael eu cynnal dros gyfnod o 14 diwrnod o leiaf)
- bod o leiaf pedwar troseddwr yn bresennol
- bod o leiaf un hyfforddwr i bob 20 troseddwr (yr arfer gorau)

Lle mae amgylchiadau unigol yn gwneud eithriad i'r paramedrau uchod yn ofynnol, rhaid i'r darparwr gadw cofnod manwl at ddibenion archwilio a sicrhau ansawdd. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd adegau lle bydd angen i'r hyfforddwr reoli senarios anarferol megis:

- newid i amseroedd dechrau/gorffen
- newid i'r hyfforddwr
- cyrraedd yn hwyr
- colli sesiynau, er enghraifft, oherwydd argyfwng personol
- canslo oherwydd tywydd gwael

Nid yw cyrsiau un i un yn briodol gan fod y maes llafur ar gyfer cyrsiau'n seiliedig ar egwyddorion dysgu fel grŵp, sy'n hanfodol ar gyfer newid ymddygiad yn effeithiol. I sicrhau nad yw'r cyfranogwr yn dioddef anfantais, dylai unrhyw sesiynau dal i fyny, boed hynny rhai sy'n rhan o gwrs wedi'i gynllunio, neu rai a

grëir ar gyfer cleientiaid sydd wedi colli sesiynau cwrs, hefyd fod yn seiliedig ar egwyddorion dysgu mewn grŵp.

Caiff darparwyr cyrsiau wneud mân newidiadau unrhyw bryd i gynnwys a dull cyflwyno cyrsiau cymeradwy, cyn belled â bod eu cwrs yn para'n gyson â'r gymeradwyaeth a roddwyd ac nad yw'n mynd yn groes i ganllaw'r cwrs. Bydd angen i Lywodraeth Cymru gymeradwyo unrhyw newid arwyddocaol a dylid gofyn amdani 30 diwrnod cyn y newid.

Os nad yw darparwr yn siŵr a oes angen cymeradwyaeth arno i newid y cwrs, dylai holi Llywodraeth Cymru.  Dylai darparwr y cwrs sicrhau bod Llywodraeth Cymru a lle bo angen, y llysoedd y mae'n eu gwasanaethu, yn cael gwybod ar unwaith am unrhyw newid i'r cwrs neu i'r manylion cysylltu.

# 7. Cwblhau'r cwrs

O dan adran 34B o Ddeddf Tramgwyddwyr Traffig Ffyrdd 1988 rhaid i ddarparwyr cyrsiau roi tystysgrif cwblhau cwrs neu hysbysiad o fethu cwblhau cwrs. Mae'n ofynnol i ddarparwyr ddefnyddio'r templedi ar gyfer y dogfennu hyn a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Rhaid i ddarparwyr cyrsiau roi tystysgrif cwblhau cwrs i'r troseddwr 14 diwrnod ar ôl y dyddiad hwyrach a nodir yn y gorchymyn llys ar gyfer cwblhau'r cwrs fan bellaf, oni bai nad yw'r troseddwr wedi cwblhau'r cwrs. Rhaid i ddarparwr y cwrs gadw'r cofnod hwn am o leiaf tair blynedd ar ôl y dyddiad hwyrach ar gyfer cwblhau'r cwrs.

Am fanylion ynghylch methu cwblhau cwrs (gan gynnwys yr hyn mae methu cwblhau yn ei gynnwys) gweler adran 8.

Dylai darparwyr wneud yn siŵr bod troseddwyr mai nhw sy'n gyfrifol am wneud cais am drwydded newydd cyn diwedd y cyfnod gwahardd llai. Gwneir hyn drwy ddefnyddio ffurflenni D1/D27 sydd ar gael gan swyddfeydd post neu'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau Gov.UK.

# 8. Methu cwblhau cwrs

Dylai darparwyr roi set o gyfarwyddiadau clir ar gyfer ymuno â chwrs i droseddwyr y disgwylir iddynt gydymffurfio â nhw. Gallai methu cydymffurfio â'r amodau a bennir gan y darparwr arwain at y troseddwr yn methu cwblhau'r cwrs a derbyn hysbysiad o fethu cwblhau cwrs o dan adran 34B o Ddeddf Tramgwyddwyr Traffig Ffyrdd 1988.

Pan nad yw troseddwr yn cwblhau cwrs, dylai darparwr y cwrs hysbysu'r troseddwr nad yw wedi cwblhau'r cwrs, yn ysgrifenedig, cyn gynted ag y bo modd ac 14 diwrnod ar ôl y dyddiad hwyrach ar gyfer cwblhau'r cwrs a nodir yn y gorchymyn llys fan bellaf. Gall y troseddwr fethu cwblhau'r cwrs os yw'n:

- methu talu ffioedd y cwrs
- methu mynychu'r cwrs yn unol â chyfarwyddiadau ymuno rhesymol y darparwr cyrsiau cymeradwy
- methu cydymffurfio â gofyniad rhesymol arall gan y darparwr cwrs cymeradwy

Mae angen i'r hysbysiad o fethu cwblhau cwrs nodi'r rheswm dros y penderfyniad ac unrhyw amgylchiadau a arweiniodd at y troseddwr yn methu cwblhau'r cwrs. Dylai'r hysbysiad dynnu sylw at hawl y troseddwr o dan adran 34B(6) o Ddeddf Tramgwyddwyr Traffig Ffyrdd 1988 i apelio yn erbyn penderfyniad darparwr y cwrs.

Mae hawl yn bodoli i droseddwr wneud cais i'r llys goruchwylio i herio penderfyniad darparwr y cwrs i beidio â rhoi'r dystysgrif hon o dan adran 34B(6) o Ddeddf Tramgwyddwyr Traffig Ffyrdd 1988. Dylai darparwyr cyrsiau gadw cofnod cywir o bresenoldeb, camymddwyn ac unrhyw ymddygiad sy'n tarfu ar eraill mewn perthynas ag unrhyw rybuddion a gwaharddiadau, gan ei bod yn bosibl y bydd angen y wybodaeth hon fel tystiolaeth mewn achos llys.

Rhaid i ddarparwyr cyrsiau anfon hysbysiad o fethu cwblhau cwrs at y troseddwr a chael tystiolaeth o bostio i ddangos ei bod wedi cael ei hanfon. Rhaid cadw'r cofnod hwn am o leiaf tair blynedd ar ôl y dyddiad cyflwyno.

# 9. Adborth a gwerthuso

Dylai darparwyr cyrsiau fod â pholisïau, prosesau a gweithdrefnau ar gyfer gwerthuso ac ystyried pa mor dda mae'r cwrs yn perfformio, a sut mae'n helpu troseddwyr i gyflawni'r canlyniadau dysgu yn y maes llafur ar gyfer cyrsiau adsefydlu.

Dylai darparwyr fesur gwelliannau i wybodaeth troseddwyr am alcohol a'u hagwedd tuag ato, a monitro a rheoli cysondeb ac ansawdd yr hyfforddiant.

Yn unol ag egwyddorion y model newid sylfaenol, mae'n bosibl y bydd pob unigolyn ar fan cychwyn gwahanol, a bydd lefel y cynnydd mae pob unigolyn yn ei gwneud yn ystod y cylch newid yn wahanol. Felly, dylai'r gwerthuso ganolbwyntio ar dystiolaeth o gynnydd yn hytrach na chyflawni nod penodol. Er enghraifft, er ei bod yn ddymunol gweld unigolyn penderfynu peidio ag yfed o gwbl pan fydd yn bwriadu gyrru, mae unrhyw leihad yn newid gwerth chweil.

# 10. Sicrhau ansawdd ac archwiliadau

I sicrhau ansawdd parhaus y cwrs, dylai darparwyr cyrsiau fonitro'r ffordd mae'r cwrs yn cael ei ddarparu i sicrhau bod y cynnwys a'r dull cyflwyno'n briodol i amcanion y cwrs, ac yn unol â'r gymeradwyaeth ar gyfer y cwrs. Rhaid i ddarparwyr ganiatáu i archwilwyr sy'n gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru gael mynediad at gofnodion, dogfennau a'r deunyddiau cwrs ar unrhyw adeg at ddibenion cydymffurfedd a sicrhau ansawdd. Dylid cadw dogfennau sy'n gysylltiedig â'r cwrs megis amserlenni, cofrestri a deunyddiau gwerthuso am o leiaf tair blynedd ar ôl dyddiad olaf y cwrs.

## Archwilio canolfannau

Bydd darparwyr yn cael eu harchwilio o leiaf unwaith yn ystod oes y gymeradwyaeth. Bydd yr archwiliad yn cynnwys gwirio:

- cofnodion o nifer y troseddwyr sy'n cael eu hatgyfeirio, sy'n cwblhau cwrs ac sy'n methu mynychu cwrs
- bod cofnodion ar waith a bod y wybodaeth ar roddir ar gais yn gywir.

Rhoddir unrhyw ganfyddiadau i'r darparwr cwrs mewn adroddiad archwiliad o fewn 15 diwrnod gwaith. Bydd yn ofynnol i'r darparwr cwrs ymateb i'r adroddiad yn ffurfiol a darparu unrhyw sicrwydd sydd ei angen, yn ogystal â thystiolaeth o sut mae gofynion yr adroddiad wedi cael eu bodloni.

## Archwilio cyrsiau

Bydd Llywodraeth Cymru yn asesu ansawdd a'r gwaith o ddarparu cwrs cymeradwy drwy archwiliadau cwrs dirybudd. Nid yw'r rhain yn gysylltiedig â'r archwiliad o ganolfannau a amlinellir uchod (sy'n cael ei gyfyngu i un archwiliad yn ystod oes y gymeradwyaeth), ac mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal nifer o archwiliadau cwrs yn ystod oes y gymeradwyaeth fel sy'n briodol yn ei barn hi.

Bydd y canlynol yn cael ei wirio mewn archwiliad (nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth):

- bod y cwrs adsefydlu'n cael ei ddarparu yn unol â'r gymeradwyaeth
- bod yr adnoddau sy'n cael eu defnyddio'n briodol ac yn gwella'r profiad dysgu
- bod gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn, er enghraifft, gwiriadau adnabod
- bod y cwrs yn para am yr amser gofynnol – o leiaf 16 awr

Mae'n bosibl y bydd yr archwilydd yn rhoi gwybodaeth anffurfiol i’r darparwr cyrsiau a'i hyfforddwyr i'w helpu i wella. Fodd bynnag, rhoddir unrhyw ganfyddiadau i'r  darparwr cwrs mewn adroddiad archwiliad o fewn 15 diwrnod gwaith i'r ymweliad.

Bydd yn ofynnol i'r darparwr cwrs ymateb i'r adroddiad yn ffurfiol a darparu unrhyw sicrwydd sydd ei angen, yn ogystal â thystiolaeth o sut mae gofynion yr adroddiad wedi cael eu bodloni.

Os nad yw'r cwrs yn cael ei ddarparu yn unol â'r gymeradwyaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd y camau priodol, a allai arwain at Lywodraeth Cymru yn tynnu cymeradwyaeth ar gyfer y cwrs yn ôl. Bydd y darparwr cwrs yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig pan fydd cymeradwyaeth ar gyfer cwrs yn cael ei thynnu’n ôl.

Fel arfer bydd y darparwr cwrs yn cael 28 diwrnod i gyflwyno sylwadau, ond mewn rhai achosion difrodol gallai cymeradwyaeth ar gyfer y cwrs gael ei thynnu'n ôl ar unwaith. Os bydd hyn yn digwydd, bydd y gymeradwyaeth ar gyfer y cwrs yn dod i ben ar unwaith, ac ni chaniateir i'r darparwr cyrsiau barhau i ddarparu'r cwrs adsefydlu cymeradwy.

# 11. Tynnu cymeradwyaeth ar gyfer cwrs yn ôl

## Ildio cymeradwyaeth yn wirfoddol

Pan nad yw darparwr cwrs cymeradwy bellach yn fodlon neu’n gallu derbyn atgyfeiriadau gan y llysoedd mewn ardal benodol, rhaid iddo hysbysu Llywodraeth Cymru am ei fwriad i ildio'r gymeradwyaeth ar gyfer ei gwrs yn ysgrifenedig yn DrinkDriveRehabilitationScheme@gov.wales a nodi'r dyddiad y bydd hyn yn digwydd.

Oni bai bod amgylchiadau eithriadol, dylai'r darparwr cwrs roi tri mis o rybudd am ei fwriad i beidio â darparu cyrsiau adsefydlu. Bydd y cyfnod rhybudd hwn yn caniatáu cwblhau unrhyw ymrwymiadau cwrs sydd heb eu cyflawni mewn modd trefnus, ac yn rhoi digon o amser i hysbysu'r gwasanaeth llysoedd (i sicrhau nad yw troseddwyr eraill yn cael eu hatgyfeirio i'r cwrs) a diweddaru'r manylion perthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru.

I sicrhau nad yw troseddwyr sydd wedi cael eu hatgyfeirio'n dioddef anfantais, rhaid i'r darparwyr cwrs wneud y canlynol:

- cysylltu ag unrhyw droseddwyr eraill sydd wedi cael eu hatgyfeirio, gan egluro na fydd yn gallu darparu'r cwrs gan fod y gymeradwyaeth yn dod i ben
- hysbysu'r troseddwr bod rhaid iddo ddewis darparwr cyrsiau cymeradwy arall drwy gysylltu â'r llys a roddodd y gorchymyn
- rhoi manylion unrhyw droseddwyr eraill i HMCTS a dychwelyd y gorchmynion llys

Hoffem atgoffa darparwyr am eu rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth diogelu data, ac y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrwydd bod data personol troseddwyr wedi cael ei ddinistrio neu ei reoli yn unol â'r ddeddfwriaeth gysylltiedig. Bydd HMCTS yn cysylltu â'r darparwr cyrsiau yn uniongyrchol i ddweud sut y dylid dychwelyd y data ac ym mha fformat.

Dylai darparwyr cyrsiau nodi'r canlynol:

- bydd manylion y cwrs cymeradwy sydd wedi cael ei dynnu'n ôl yn cael eu dileu o'r swyddogaeth 'dod o hyd i'ch cwrs adsefydlu gyrwyr sy'n yfed agosaf'
- bydd archwiliad cau
- Bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu HMCTS bod cymeradwyaeth ar gyfer y cwrs wedi cael ei thynnu'n ôl, ac os yw'r darparwr cwrs yn dymuno darparu cwrs adsefydlu gyrwyr sy'n yfed ar unrhyw adeg yn y dyfodol, bydd rhaid iddo gyflwyno cais newydd

Nid yw'n bosibl trosglwyddo cymeradwyaeth ar gyfer cwrs o un darparwr i'r llall.

Pan fydd statws cyfreithiol darparwr cyrsiau yn newid yn ystod oes y gymeradwyaeth, bydd y gymeradwyaeth bresennol yn peidio â bod yn ddilys ac ni ellir ei defnyddio mwyach. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r endid newydd wneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer cwrs.

## Tynnu cymeradwyaeth – diffyg cydymffurfio

Caiff Llywodraeth Cymru dynnu cymeradwyaeth ar gyfer cwrs yn ôl ar unwaith, neu roi rhybudd ei bod yn bwriadu gwneud hynny, os yw’n dod i’r amlwg bod darparwr wedi torri amodau'r gymeradwyaeth mewn modd difrifol, neu os ystyrir nad oes bellach person addas i ddarparu'r cwrs a'r prosesau gweinyddol cysylltiedig.

# 12. Yr hawl i apelio

Mae gan ddarparwr cyrsiau'r hawl i apelio at Dribiwnlys yr Haen Gyntaf os yw'n teimlo ei fod wedi cael cam wrth i Lywodraeth Cymru wrthod cymeradwyo cwrs, rhoi cymeradwyaeth yn ddarostyngedig i amodau neu dynnu cymeradwyaeth ar gyfer cwrs yn ôl.

# 13. Cwynion

Rhaid i ddarparwyr cyrsiau wneud eu gweithdrefn gwyno ar gael i droseddwyr. Hefyd rhaid i ddarparwr ddweud wrth y troseddwr y caiff gysylltu â Chynllun Adsefydlu Gyrwyr sy'n Yfed Cymru os nad yw'n fodlon ar ymateb y darparwr, neu anfon e-bost at DrinkDriveRehabilitationScheme@llyw.cymru. Os oes gan y troseddwr gŵyn am y llysoedd dylai anfon e-bost at: complaintscorres&it@hmcts.gsi.gov.uk.

# 14. Gwybodaeth ddefnyddiol

## Troseddwyr Risg Uchel

Mae'n ofynnol i droseddwyr risg uchel fodloni'r DVLA nad does ganddynt 'broblem alcohol' a'u bod yn addas i yrru, cyn iddynt dderbyn trwydded newydd. Mae hyn yn cynnwys cytuno i gael archwiliad meddygol gan ymarferydd sydd wedi cael ei gymeradwyo gan y DVLA. Felly, rhaid i'r darparwr sicrhau bod digon o amser ar gyfer hyn, pan fydd yn trefnu lle ar gwrs ar gyfer troseddwr risg uchel. Dylai darparwyr cyrsiau roi canllawiau i'r troseddwyr hynny y mae'r llys wedi nodi eu bod yn droseddwyr risg uchel.

**Nodyn:** Troseddwyr Risg Uchel – Yn ôl adran 74 o Reoliadau Cerbydau Modur (Trwyddedau Gyrru) 1999 (OS 1999 rhif 2864): personau sydd wedi cael eu gwahardd rhag gyrru am fod mwy na dwywaith a hanner dros y terfyn a rhagnodir; am fethu rhoi sbesimen i'w ddadansoddi heb esgus rhesymol; neu am fod yn anaddas i yrru o ganlyniad i yfed neu yrru â chrynodiad o alcohol dros y terfyn a ragnodir mwy na dwywaith o fewn deng mlynedd.